

### Oriau agor

Yn agored yn ddyddiol o 10.00am – 5.30pm. Mynediad am ddim. Maes parcio am ddim.

Y mae Rhuthun o fewn 24 milltir i Gaer, 22 o'r Rhyl, 35 o Lerpwl, 63 o Fanceinion a 92 o Birmingham. Y gorsafoedd trên agosaf yw Caer a Wrexham.

### Bwyty Café R

Dewch i ymweld â Bwyty Café R heddiw! Y lle perffaith i gymryd hoe i ymlacio a mwynhau coffi ffres neu baned o de – a bwyd wedi'i baratoi a'i weini gan ein tîm lleol o staff cyfeillgar.

### Opening times

Open daily from 10.00am – 5.30pm. Admission free. Free on-site parking.

Ruthin is situated 24 miles from Chester, 22 from Rhyl, 35 from Liverpool, 63 from Manchester and 92 from Birmingham. The nearest train stations are Chester and Wrexham.

### Café R Restaurant

Visit Café R Restaurant today! The perfect place to take time to relax and enjoy a freshly brewed coffee or cup of tea – with food prepared and served by our local team of friendly staff.



WI-FI  
AM  
DDIM

FREE  
WI-FI

**Canolfan Grefft Rhuthun  
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol**  
Heol y Parc, Rhuthun,  
Sir Ddinbych LL15 1BB  
Ffôn: +44 (0)1824 704774  
Yn agored yn ddyddiol o  
10.00am – 5.30pm

Mynediad am ddim.  
Maes parcio am ddim.  
Ewch i'n gwefan am wybodaeth  
am wahanol arddangosfeydd  
[www.canolfangreffrhuthun.org.uk](http://www.canolfangreffrhuthun.org.uk)

**Ruthin Craft Centre  
The Centre for the Applied Arts**  
Park Road, Ruthin,  
Denbighshire LL15 1BB  
Tel: +44 (0)1824 704774  
Open daily from  
10.00am – 5.30pm

Free admission.  
Free on-site parking.  
Visit our website for  
exhibition information  
[www.ruthincraftcentre.org.uk](http://www.ruthincraftcentre.org.uk)



ffotograffi: trwy gareidgrwydd yr artists / photography: courtesy of the artists

# portfolio

ysgol gelf haf pobl ifanc 2017  
young people's summer art school 2017



Canolfan Grefft Rhuthun  
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol  
Ruthin Craft Centre  
The Centre for the Applied Arts



Gweithdai i rai 14–18 oed  
Workshops for 14–18 year olds



Rhi Moxon



Andy Hazell



Rob Spaul



Susan O'Byrne

## ysgol gelf yr haf 2017

## summer art school 2017

Mae Ysgol Gelf yr Haf yn ôl am ei phedwaredd flwyddyn ac eto mae gennym ni 'gymysgfa' o weithdai ar gyfer pobl ifanc 14–18 oed sydd â diddordeb penodol yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol ac a fyddai'n hoffi datblygu eu harfer artistig ymhellach.

The Summer Art School is back for its fourth year and again we have a 'pick and mix' of workshops for young people aged 14–18 who have a particular interest in the visual and applied arts and would like to develop their artistic practice further.

Drwy gydol gwyliau'r haf bydd Canolfan Grefft Rhuthun yn cynnal 8 o weithdai gyda 4 o artistiaid/gwneuthurwyr gwahanol:-

- **Bloc 1: Rhi Moxon** (gwneuthurwr printiau) Dydd Llun 31 Gorffennaf a dydd Mawrth 1 Awst
- **Bloc 2: Andy Hazell** (gof tun) Dydd Llun 7 a dydd Mawrth 8 Awst
- **Bloc 3: Rob Spaul** (celfyddyd ddigidol) Dydd Llun 14 a dydd Mawrth 15 Awst
- **Bloc 4: Susan O'Byrne** (serameg) Dydd Llun 21 a dydd Mawrth 22 Awst

Throughout the summer holidays Ruthin Craft Centre will be hosting 8 workshops with 4 different artists/makers:-

- **Block 1: Rhi Moxon** (printmaker) Monday 31 July & Tuesday 1 August
- **Block 2: Andy Hazell** (tinsmith) Monday 7 & Tuesday 8 August
- **Block 3: Rob Spaul** (digital art) Monday 14 & Tuesday 15 August
- **Block 4: Susan O'Byrne** (ceramics) Monday 21 & Tuesday 22 August

Yn ystod y sesiynau hyn bydd yr ymarferwyr yn rhannu eu harbenigedd, yn cyflwyno dulliau newydd ac yn trafod eich gwaith a'ch syniadau chi gan gefnogi datblygiad eich portfolio personol chi tuag at astudiaethau Celf a Dylunio.

During these sessions the practitioners will share their expertise, introduce new techniques and discuss your work and ideas supporting the development of your own personal portfolio towards Art and Design studies.

Gallwch ddewis rhwng y 4 bloc; mae pob bloc o 2-ddiwrnod yn £15 neu dewch i bob un o'r 4 bloc (8 gweithdy) am £50.

You can pick and choose between the 4 blocks; each 2-day block is £15 or attend all 4 blocks (8 workshops) for £50.

I neilltuo eich lle  
ffoniwch 01824 704774

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Kate Jordan, Swyddog Addysg Canolfan Grefft Rhuthun. [kate.jordan@denbighshire.gov.uk](mailto:kate.jordan@denbighshire.gov.uk) neu ffonwch 01824 704774.

To book your place  
please call 01824 704774

For more information please contact Kate Jordan, Education Officer at Ruthin Craft Centre. [kate.jordan@denbighshire.gov.uk](mailto:kate.jordan@denbighshire.gov.uk) or call 01824 704774.



## bloc / block 1:

### Rhi Moxon

gwneuthurwr printiau  
printmaker

31 Gorffennaf / July &  
1 Awst / August  
11.00am – 4.00pm



#### Sgrin-brintio

Darlunydd, gwneuthurwr printiau ac artist gweledol o Ogledd Cymru yw Rhi Moxon. Wedi'i hysbrydoli gan y mynyddoedd, y dyffrynnoedd, a glan môr ei mamwlad a hefyd y golygfeydd rhyfeddol y daw ar eu traws ar ei theithiau, mae'n gwneud darluniau sy'n cael eu hysbrydoli gan le, pobl a thraddodiad.

Mae'n gasglwr brwd llyfrau plant Dwyrain Ewrop, llyfrau coginio a mapiau, ac yn aml bydd yn defnyddio lliw a geir yn y rhain yn ei darluniau.

#### Screen Printing

Rhi Moxon is an illustrator, print-maker and visual artist from North Wales. Inspired by the mountains, valleys, and seaside of her homeland and also the wonderful sights she comes across on her travels, she makes illustrations inspired by place, people and tradition.

She is an avid collector of Eastern European children's books, cookbooks and maps, and often uses colour found in these in her illustrations and drawings.

#### Y gweithdy

Yn ystod y gweithdy hwn bydd Rhi yn rhoi Rhagarweiniad i wneud printiau, yn edrych ar enghreifftiau o wahanol ddulliau a deunydd a ddefnyddir drwy sgrin-brintio. Byddwch yn archwilio'r gwahanol ddefnyddiau y gellir printio arny'n nhw, ac addurniad patrwm i greu darnau unigol y gallwch fynd â nhw efo chi.

Yna bydd y grŵp yn gweithio'n gydweithredol i greu baner ar raddfa fawr o batrymau printiedig ar decstilau – gan ymgorffori pwytho, ffeltio, stensiliau neu fathau eraill o wneud print, drwy ddefnyddio bloc leino neu mono-brintio, a defnyddio tecstilau i greu motifau a llythrennau i ychwanegu at yr arwyneb printiedig.

#### The workshop

During this workshop Rhi will provide an Introduction to print-making, looking at examples of different styles and uses employed through screen-printing. You will explore the different materials which can be printed on, and the decoration of pattern making to create individual pieces you can take away.

The group will then work collaboratively to create a large scale banner from printed patterns on textiles – incorporating stitching, felting, stencils or other kinds of printmaking, by means of lino block or mono-printing, and using textiles to create motifs and lettering to add to the printed surface.

## bloc / block 2:

### Andy Hazell

gof tun  
tinsmith

7 & 8 Awst / August  
11.00am – 4.00pm



#### Gweithdy Ailgylchu Gwrthrychau mewn tun

Mae Andy Hazell wedi cynnal ei yrfâu fel 'Awtomatydd', Artist Cyhoeddus yn ogystal â gwneuthurwr ffilmiau byr. Drwy gydol ei yrfa mae wedi arbrofi â cherfluniaeth fecanyddol gan greu ffigurau tunplat wedi'u hanimeiddio, bocsys casglu amgueddfeydd ac ategolion ar gyfer cwmnïau Ffilm a Theledu. Bydd Andy'n gwneud gwaith ar gyfer cleientiaid ac orielau ledled y byd.

#### Y gweithdy

Bydd y gweithdy ailgylchu'n caniatáu i chi wneud pryfed, blodau, tylwyth teg, eliffantod, tai a llongau awyrennau neu, yn wir, unrhyw beth arall allan o'r tun bisgedi gwylaidd gan ddefnyddio offer dwlyo syml, gan uno'r elfennau â solder tun.

Mae'n ffordd gyflym, syml, foddhaol o greu gwrthrychau 3D o ddeunydd pob dydd.

#### Recycling Workshop Objects in tin

Andy Hazell has maintained his careers as an 'Automatist', a Public Artist as well as a maker of short films. Throughout his career he's experimented with mechanical sculpture creating animated tinplate figures, museum collection boxes and props for Film and TV companies. Andy makes work for clients and galleries across the globe.

#### The workshop

The recycling workshop will allow you to make insects, flowers, fairies, elephants, houses and aircraft carriers or indeed anything else out of the humble biscuit tin using simple hand tools, joining the elements with tin solder.

It is a quick, simple satisfying way of creating 3D objects from everyday materials.

port<sup>1</sup>folio

Gweithdai i rai 14–18 oed  
Workshops for 14–18 year olds

## bloc / block 3:

### Rob Spaul

celfyddyd ddigidol  
digital art

14 & 15 Awst / August  
11.00am – 4.00pm



#### Mapio Tafuniadau a Chelfyddyd Ddigidol

Cafodd Rob ei fagu yng Ngogledd Cymru gan dreulio'r rhan fwyaf o'i amser wedi'i gloi yn stiwdio ei dad yn chwarae o gwmpas â Yamaha MSXs, Atari STs, synths Roland and Korg a thapiau rî-i-rî.

Fe ddihangodd o'r stiwdio ac aeth i astudio Gradd BA (Anrh) mewn Technoleg Cerddoriaeth Greadigol, gan arbenigo mewn Amlgyfryngau.

Yn y pen draw fe arweiniodd hyn at sefydlu www.mediapod.co.uk bron 10 mlynedd yn ôl.

Yn awr bydd yn treulio llawer o'i amser yn gweithio gydag artistiaid ifanc ac yn cyfansoddi ar gyfer y theatr, ffilmiau hyrwyddo a dawnys yn ogystal ag ailgymysgu ac weithiau ddod o hyd i amser i ysgrifennu ei ddeunydd ei hun.

#### Projection Mapping & Digital Art

Rob grew up in North Wales spending most of his time locked in his dad's studio playing around with Yamaha MSXs, Atari STs, Roland and Korg synths and reel-to-reel tapes.

He escaped the studio and went to study a BA (Hons) in Creative Music Technology, specialising in Multi-Media.

This eventually led to him setting up www.mediapod.co.uk almost 10 years ago.

He now spends a lot of his time working with young artists and composing for theatre, promo films and dance as well as remixing and occasionally finding the time to write his own stuff.

#### Y gweithdy

Archwiliwch rai o'r dulliau a'r technolegau a ddefnyddir i gynhyrchu delweddaueth ddigidol i weithio â mapio tafuniad ar raddfa fawr a bach.

Gweithdy penagored yw hwn sy'n cael ei yrru gan y cyfranogwyr. Fe fyddwn ni'n penderfynu ar arddulliau a themâu i'w harchwilio a pha ddulliau tafunio a rhyngweithio i'w defnyddio wrth i'r gweithdy ddod yn ei flaen.

Mae hwn yn weithdy ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn celfyddyd ddigidol, graffeg, awdio / weledol, cynhyrchiad theatr neu sioe.

#### The workshop

Explore some of the techniques and technologies used in generating digital imagery to work with projection mapping both large and small scale.

This is an open ended workshop driven by the participants. We'll decide on styles and themes to explore and which methods of projection and interaction to use as the workshop progresses.

This is a workshop for anyone with an interest in digital art, graphics, audio / visual, theatre or show production.

## bloc / block 4:

### Susan O'Byrne

serameg  
ceramics

21 & 22 Awst / August  
11.00am – 4.00pm



#### Llestri wedi'u Hanifeilio

Ganwyd Susan O'Byrne yn Cork, Iwerddon. Fe ddechreuodd ar ei hastudiaethau artistig yn Ysgol Grefft Grennan Mill lle cafodd dystysgrif â theilyngdod yn 1991. Yn 1994 fe symudodd i'r Alban i gymryd swydd yng Ngholeg Celf Caeredin, gan raddio yn 1999 â Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Dylunio a Chelfyddyd Gymhwysol. Yn 2002 cafodd Ddiploma Ôl-raddedig mewn serameg, hefyd o Goleg Celf Caeredin.

Fe symudodd Susan i'r gorllewin o Gaeredin i sefydlu practis yn stiwdio Serameg Glasgow. Mae wedi arddangos yn eang ac wedi bod yn artist preswyl gartref a thramor a bydd hefyd yn llwyddo i ddod o hyd i amser i arwain llawer o brosiectau celf cymunedol llwyddiannus.

#### Animalized Vessels

Susan O'Byrne was born in Cork, Ireland. She began her artistic studies at Grennan Mill Craft School where she received a certificate with merit in 1991. In 1994 she moved to Scotland to take up a place at Edinburgh College of Art, graduating in 1999 with a First-Class Honours Degree in Design and Applied Art. In 2002 she was awarded a Post Graduate Diploma in ceramics, also from Edinburgh College of Art.

Susan moved west from Edinburgh to set up practice at Glasgow Ceramics studio. She has exhibited widely and been an artist in residence both at home and abroad and also manages to find time to lead many award winning community art projects.

#### Y gweithdy

Yn ystod y gweithdy deuddydd hwn, bydd Susan yn cyflwyno myfyrwyr i'w dulliau gweithio nodedig mewn clai. Bydd y prosiect yn cyfuno gwahanol brosesau o ddefnyddio porslen-papur yn cynnwys gwneud printiau, gludwaith, ac adeiladu â llaw i greu llestri porslen pig unigol sydd wedi'u darlunio ac sy'n llawn cymeriad.

#### The workshop

During this two day workshop, Susan will introduce students to her distinctive working methods in clay. The project will combine various processes of using paper-porcelain including printmaking, collage, and hand-building to create individual illustrated and characterful spouted porcelain vessels.